

Erthygl: Y Farchnad Swyddi

Crynodeb

Mae'r erthygl hon yn egluro beth yw'r farchnad swyddi a sut gall effeithio arnoch, yn cynnwys pan fydd dirwasgiad.

Y farchnad swyddi

Mae'r 'farchnad swyddi' yn golygu'r maint a'r math o swyddi sydd ar gael. Bydd hynny'n newid, gan ddibynnu ar ba mor dda mae'r economi yn ei wneud. Er enghraifft, pan aiff yr economi i ddirwasgiad, bydd mwy o bobl yn ddi-waith. Golyga hyn y bydd mwy o gystadleuaeth am y swyddi fydd ar gael o hyd.

I arbed arian, fe all llywodraethau benderfynu tocio ar yr arian gaiff y sector cyhoeddus. Gall hyn arwain at golli swyddi. Bydd rhai sefydliadau sector cyhoeddus hefyd yn rhoi'r gorau i gyflogi staff newydd.

Yn gyffredinol, mae pethau fel twf y boblogaeth a thechnoleg yn effeithio ar y farchnad swyddi. Er enghraifft, fe all bod pobl am weithio tan eu bod yn hyn, gan arwain at fwy o gystadleuaeth am swyddi. Gall effaith y dechnoleg newydd olygu bod rhai swyddi'n diflannu a rhai newydd yn cael eu creu nad oedd yn bodoli cynt.

Y galw am sgiliau

Mewn rhai meysydd gwaith, ceir mwy o bobl gyda medrau a chymwysterau nac o swyddi ar eu cyfer. Golyga hynny gystadleuaeth chwyn am swyddi.

Ar y llaw arall, fe all bod 'prinder medrau' mewn meysydd eraill. Er enghraifft, gall technolegau newydd ymddangos bron dros nos, felly mae'n cymryd amser i'r system addysg i ddal i fyny ac i gynhyrchu pobl gyda'r medrau a'r wybodaeth y mae cyflogwyr eu hangen.

Bydd hyn yn digwydd hefyd pan fydd llai o bobl yn cael eu denu i ddiwydiant penodol, efallai oherwydd cyflogau ac amodau gwael, ac felly'n dewis peidio â hyfforddi mewn sgiliau sy'n berthnasol i'r maes hwnnw. Bydd cyflogwyr wedyn yn gorfod ceisio'n galetach i ddenu pobl gyda'r medrau maen nhw eu hangen.

Beth mae hyn yn ei olygu i fi?

Yn aml mae ymgeisio am swyddi yn galed; mae angen i chi fod yn ymwybodol y gall pethau fod yn galetach pan fydd dirwasgiad neu doriadau yn arian y sector cyhoeddus.

Mae gofyn i chi wybod am y lefel o alw a'r gystadleuaeth am y swyddi rydych â diddordeb ynddynt. Fe all hyn effeithio ar eich penderfyniadau ynglyn ag astudio pwnc penodol neu hyfforddi mewn sgil newydd.

Fe all cynhyrchion CASCAID fel New Kudos, Kudos Inspire a Careerscape gynnwys ffeithiau am bethau fel:

- y niferoedd o bobl sy'n gweithio mewn swyddi gwahanol
- ble mae pobl yn gweithio
- faint mae pobl yn ei ennill
- pa mor hawdd/anodd ydy hi i gael mynediad i alwedigaeth
- y swyddi gweigion y caiff cyflogwyr drafferth i'w llenwi.

Gelwir ffeithiau fel hyn yn 'wybodaeth am y farchnad lafur' (LMI). Fe all eich helpu i wneud penderfyniadau gyrfaoel pwysig. Er enghraifft, a fasech chi'n barod i symud o gwmpas y wlad os nad oedd y swydd roeddech am ei chael ar gael yn lleol? Fasech chi'n ystyried newid gyrfa pe byddai cyfleoedd yn cynyddu mewn maes gwaith arall?

Pan fo'r gystadleuaeth yn galetach, daw yn fwyfwy pwysig i ddangos i gyflogwyr fod ganoch y rhinweddau a'r medrau personol iawn i wneud y swydd. Golyga hynny weithio ar eich sgiliau trosglwyddadwy - pethau fel sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm, rheolaeth amser a datrys problemau.

Fe all bod angen i chi gael profiad gwaith gwirfoddol neu dderbyn hyfforddiant er mwyn datblygu medrau newydd. Fe allech hefyd gael help gyda'ch CV, llythyrau eglurhaol a ffurflenni cais gan gynghorwyr mewn Canolfan Byd Gwaith, i sicrhau bod eich ceisiadau yn wirioneddol sefyll allan.

